# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

## PENNOD 1

COD TREFNIADAETH YSGOLION

### 38 Cod Trefniadaeth Ysgolion

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod am drefniadaeth ysgolion ("y Cod"), a chaniateir iddynt ei ddiwygio o dro i dro.

(2) Mae'r Cod i gynnwys darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r personau canlynol o dan y Rhan hon—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) awdurdodau lleol;

(c) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;

(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.

(3) Caiff y Cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill.

(4) Rhaid i'r personau y cyfeiriwyd atynt yn is-adran (2), wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon—

(a) gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yn y Cod, a

(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gynhwysir ynddo.

(5) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (4) yn gymwys hefyd i berson sy'n arfer swyddogaeth at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Rhan hon gan—

(a) Gweinidogion Cymru,

(b) awdurdod lleol,

(c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir, neu

(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar eu gwefan y Cod sydd mewn grym am y tro.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar wahân (drwy gyfrwng codau ar wahân) mewn perthynas â swyddogaethau gwahanol o dan y Rhan hon sy'n perthyn i'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at "y Cod" neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon yn cael effaith, mewn perthynas â chod ar wahân, fel cyfeiriadau at y cod hwnnw neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon y mae'n ymwneud â hwy.

## 39 Llunio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion

(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 38, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a ganlyn ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)—

(a) pob awdurdod lleol,

(b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir,

(c) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac

(d) unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw.

(4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a

(b) daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

(5) O ran y cyfnod o 40 o ddiwrnodau—

(a) mae'n dechrau ar y diwrnod y caiff y drafft ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pryd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god arfaethedig yn cynnwys cod diwygiedig arfaethedig.

(8) Caniateir i'r gofyniad i ymgynghori a osodir gan is-adran (1) gael ei fodloni drwy ymgynghoriad yr ymgymerwyd ag ef cyn i'r Rhan hon ddod i rym er bod y cod a ddyroddir o dan adran 38(1) yn cymryd i ystyriaeth (i unrhyw raddau) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon.